# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU
# 2020-21

# Rhagair

Roedd 2020-21 yn flwyddyn anarferol gydag effaith pandemig Covid-19 i'w weld yn fyd-eang. Mae'r cyfnod yma wedi dysgu i ni'r angen i werthfawrogi'r pethau bychain, pwysigrwydd cymuned a'r angen i gefnogi unigolion a theuluoedd bregus.

Dyma'r flwyddyn gyntaf llawn o weithredu ein trefniadau craffu presennol yn dilyn yr adolygiad craffu. Oedwyd y gwaith craffu am gyfnod oherwydd y pwysau gwaith aruthrol ar wasanaethau'r Cyngor, a oedd yn deillio o ymateb i pandemig Covid-19. Ymdrechwyd yn y cyfnod anodd yma i barhau gyda'r gwaith craffu gan addasu i gynnal ein gweithgareddau yn rhithiol. Ymhelaethir ar y daith i ail-ddechrau'r gwaith yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y prif waith craffu ac ymhelaethu ar eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol. Wrth adnabod eitemau i'w craffu mae aelodau yn rhoi ystyriaeth i'r hyn gall y gwaith craffu ychwanegu gwerth a chyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Gellir gweld rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn mewn atodiad i'r adroddiad yma.

Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o gyfraniad a gwaith y cadeiryddion ac is-gadeiryddion, a'r holl aelodau craffu a oedd wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newid yn y ffordd o gwblhau'r gwaith craffu gyda chyfraniadau gwerthfawr yng nghyfarfodydd rhithiol y pwyllgorau craffu.

Yn ogystal, hoffwn ddiolch i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.

Wrth edrych ymlaen at 2021-22, cynhaliwyd gweithdai craffu ym mis Mai er mwyn i'r pwyllgorau craffu flaenoriaethu eitemau gan lunio eu rhaglen waith drafft. Bydd y gwaith craffu yn hanfodol bwysig i gyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.



Cynghorydd Beth Lawton,

Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Fforwm Craffu | 3 – 4 |
| Eitemau Craffu | 5 – 10 |
| Galw i Mewn | 11 – 12 |
| Ymchwiliadau Craffu | 13 – 15 |
| Grŵp Tasg Parcio | 16 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | 17 |
| Sesiynau Aelodau Cabinet | 18 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2020/21 | 19 |


<u>Atodiad</u>


| | |
|---|---|
| Rhestr o’r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 20 – 21 |

# Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

**Aelodaeth y Fforwm Craffu yn ystod 2020/21:**

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**



Cynghorydd

Paul Rowlinson



Cynghorydd

Elwyn Jones

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Cynghorydd

Elfed P. Roberts



Cynghorydd

Gethin Glyn Williams

**Pwyllgor Craffu Gofal**



Cynghorydd

Dewi Wyn Roberts



Cynghorydd

Beth Lawton

**Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**
(Rôl Craffu Materion Corfforaethol)



Cynghorydd

John Brynmor Hughes



Cynghorydd

Angela Russell (dan 15/10/20)



Cynghorydd

John Pughe Roberts (o 15/10/20)

**Rôl y Fforwm Craffu yw:**

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Bu'r Fforwm yn allweddol o ran ail-gychwyn y gwaith craffu yn dilyn oedi'r gwaith am gyfnod o ganlyniad i'r pwysau gwaith aruthrol ar y Cyngor a oedd yn deillio o ymateb i pandemig Covid-19.

Cynhaliwyd cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2020 i drafod y ffordd ymlaen gydag ail-gychwyn y gwaith craffu. Daethpwyd i'r casgliad i wahodd aelodau i gyflwyno materion i'r Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion eu codi mewn cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Aelodau Cabinet, Penaethiaid a'r Cyfarwyddwr perthnasol yn y cyfnod rhwng 16 - 23 o Fedi.

Yn dilyn y cyfarfodydd anffurfiol, cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar 29 Medi 2020 i gadarnhau'r ffordd ymlaen o ran ail-gychwyn y gwaith craffu ffurfiol, a thrafodaeth o ran blaenoriaethu eitemau.

Fe ail-gychwynnodd y pwyllgorau craffu i gyfarfod ym mis Hydref 2020. Cynhaliwyd sesiwn anffurfiol ar gyfer aelodau'r Fforwm yn Rhagfyr 2020 gyda chyfle i'r aelodau adlewyrchu ar ôl y cyfarfodydd rhithiol cyntaf.

Cyfarfu'r Fforwm ar 2 Chwefror 2020, cafwyd trafodaeth o ran trefniadau ymarferol cyfarfodydd pwyllgorau craffu rhithiol. Yn y cyfarfod yma edrychwyd i'r dyfodol yn ogystal gan gadarnhau trefniadau llunio rhaglen waith ar gyfer 2021/22. Penderfynwyd cynnal gweithdai fesul pwyllgor yn Mai 2021 gyda chyfle i'r holl aelodau gyflwyno eitemau posib ar gyfer y rhaglen waith.

Mae'r Fforwm Craffu yn galluogi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i gael trosolwg o'r holl waith craffu gan gydnabod bod blaenoriaethu eitemau i'w trafod yn amserol yn golygu y bydd gwahaniaeth o ran niferoedd eitemau wedi'u cynnwys ar raglenni cyfarfodydd pwyllgor. O ganlyniad, mae trefniadau ymarferol cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod.

Mi fydd aelodaeth y Fforwm Craffu yn newid ym mlwyddyn Cyngor 2021/22. Llunir cynllun hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion gyda sylw yn cael ei roi i faterion ymarferol/technegol a materion llywodraethu.

# Eitemau Craffu

Yn ystod 2020/21, blaenoriaethwyd eitemau i'w craffu gan ystyried cyd-destun pandemig Covid-19 a'r pwysau aruthrol ar wasanaethau'r Cyngor. Dyma giplun o'r eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol. Canolbwyntir ar yr eitemau sydd wedi ychwanegu gwerth fwyaf. Mae rhestr gyflawn o'r eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn yr Atodiad i'r adroddiad yma. Gellir gweld yr holl wybodaeth am yr hyn a drafodwyd yn ystod 2020/21 ar wefan y Cyngor – https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

## Twf Economaidd Gogledd Cymru




Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn rhan allweddol o'r broses wrth sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac wedi craffu gwaith y Bwrdd yn dilyn ei sefydlu. Yn 2016, mabwysiadodd partneriaid y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru gyda'r Cynllun Twf yn cael ei gytuno yn Hydref 2018. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio sy'n cynnwys 5 rhaglen i'w gweithredu dros y bymtheg mlynedd nesaf gan geisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf). Yn Nhachwedd 2019, daeth y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gytundeb ar benawdau'r telerau, gyda chytundeb terfynol i'w gwblhau yn 2020.

Yng nghyfarfod y pwyllgor craffu ar 5 Tachwedd 2020, craffwyd y dogfennau allweddol ynghlwm â'r cytundeb terfynol cyn iddynt fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor Llawn er eu cymeradwyo. Cyn argymell i'r Cyngor, roedd yn ofynnol i'r pwyllgor craffu ystyried os oedd y Cynllun Busnes, Cytundeb Llywodraethu 2, y model ariannu a'r trefniadau gweithredu yn glir a chadarn fel sail i gyflawni amcanion y Cytundeb Twf er budd busnesau a thrigolion Gwynedd.

Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau craffu yn ystod y cyfarfod:-

- Cymeradwyo'r egwyddorion a'r weledigaeth, ond mai'r broblem fawr fyddai cyrraedd y nod, gan nad oedd nawr yn amser da i sefydlu'r math hwn o gynllun rhwng Cofid a Brexit a phopeth arall oedd yn ein hwynebu.
- Pryder bod y rhan fwyaf o'r sector oedd yn cyfrannu fwyaf at y cynllun, sef y sector breifat, yn y Gogledd Ddwyrain. Byddai cynllun Wylfa B wedi cyfrannu at y sector yn y Gogledd Orllewin, ond nid oedd hynny am ddigwydd bellach.
- Bod y cynllun yn gosod sylfeini cadarn iawn a bod llawer o'r prosiectau yn rhai diddorol ac uchelgeisiol.
- Byddai wedi bod yn braf gweld rhywfaint o'r buddsoddiad yn dod i Ben Llŷn a De Meirionnydd, ond dymunwyd y gorau i'r Bwrdd a'r swyddogion wrth iddynt gydweithio i sicrhau Gogledd Cymru ffyniannus a llewyrchus yn economaidd.

Yn dilyn derbyn ymatebion i sylwadau'r aelodau, roedd y pwyllgor craffu o'r farn bod y Cynllun Busnes; Cytundeb Llywodraethu 2; y model ariannu a'r trefniadau gweithredu yn glir a chadarn fel sail i gyflawni amcanion y Cytundeb Twf er budd busnesau a thrigolion Gwynedd. Cymeradwyodd y Cyngor Llawn yr adroddiad a'r gweithrediad i gwblhau cytundeb terfynol yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020.

Mi fydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn parhau i graffu gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r dyfodol.

## Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd

Cyflwynwyd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Mae'r fframwaith yn gosod strategaeth y llywodraeth ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Rôl y Grŵp Rheoli sydd wedi ei sefydlu yng Ngwynedd yw gosod gweledigaeth leol ar gyfer y Fframwaith.

Mae nifer o wasanaethau yn y Cyngor yn cyfrannu at gefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o ddisgyn allan o addysg, neu sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Gan gynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid; Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd; Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Craffwyd trefniadau a darpariaethau'r Cyngor i gefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu dadrithio gan addysg neu sydd wedi eu dadrithio gan addysg, hyfforddiant neu waith, yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 15 Ebrill 2021. Gwnaed hyn yng nghyd-destun cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer prosiectau penodol yn dod i ben:

TRAC 11-24

Lleihau'r nifer o unigolion sydd â risg o fod yn NEET drwy gefnogi pobl ifanc 11-16 drwy amryw o ymyraethau ac o ganlyniad gwella cyfleoedd bywyd unigolion bregus.

Cyllid i ben Gorffennaf 2022
Cyfanswm gwerth y cynllun yw £4.6 miliwn (£3.3M arian ESF).

ADTRAC

Cefnogi Pobl Ifanc 16-24 oed i ymgysylltu yn ôl efo Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth.

Cyllid i ben Mai 2021
Cyfanswm gwerth y cynllun yw £1.6 miliwn (£1.1M arian ESF).

Nodwyd yn ystod y drafodaeth, o'r wybodaeth a gyflwynwyd bod y prosiectau wedi bod yn llwyddiannus. Mynegwyd pryder o ran y dyfodol o ystyried effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith pandemig Covid-19 ar y ddarpariaeth. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd - yn arbennig ynghylch addasrwydd trefniadau'r Fframwaith, yr angen i gynnig cynhaliaeth lawn i bobl ifanc sydd mewn peryg' o / wedi dadrithio o fyd addysg, hyfforddiant neu waith, gan sicrhau fod yr elfennau hyn yn cael sylw wrth adolygu ein darpariaethau i'r dyfodol. Bydd y pwyllgor yn ystyried craffu'r maes ymhellach, gan drafod yr amserlen ar gyfer hynny yng Ngweithdy Blynyddol y pwyllgor ym mis Mai.

"Yn croesawu'r sylwadau yn fawr iawn."
Aelod Cabinet

## Defnydd o'r Grant Cymorth Tai i leihau digartrefedd yng Ngwynedd

Ers cychwyn cyfnod y pandemig, mae digartrefedd wedi ei amlygu fel mater sydd angen sylw dybryd. Bu cynnydd o 26%, yn y cyfeiriadau i'r gwasanaeth digartrefedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer y digartref yn 71% yn uwch nag oedd yn dilyn dyfodiad Deddf Tai 2014. Yn 2020/21, roedd oddeutu 950 o unigolion yn ddigartref.

Craffwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 18 Mawrth 2021, y cyfeiriad a fwriadwyd ei gymryd er mwyn sicrhau fod y Grant Cymorth Tai yn arwain at y gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd ac i geisio atal digartrefedd yn y dyfodol. Dyhead yr Adran Tai ac Eiddo yw dirwyn i ben y gorddefnydd o lety gwely a brecwast drwy ddarparu cyflenwad digonol o dai dros dro a datblygu llety â chefnogaeth addas ar gyfer ei ddefnyddio i ddiwallu'r gofyn hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn gosod allan sut y bwriedir cyflawni'r dyhead gyda chyllideb ddigonol i ddarparu adnodd o'r fath ar gael dros y blynyddoedd nesaf. Yn 2019-20, bu'r Pwyllgor Craffu Gofal yn rhan o'r broses wrth i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai 2020-2025. Llwyddodd y gwaith craffu i gyfrannu at flaenoriaethu'r cynlluniau gan amlygu materion pellach oedd angen ystyriaeth.

Wrth graffu'r mater, nodwyd nad oedd un math o wasanaeth am fod yn addas i bawb a'r pwysigrwydd o gydweithio gydag asiantaethau lleol ynghyd ag aelodau lleol. Cefnogwyd y symudiad tuag at ddirwyn i ben yr angen i ddefnyddio llety gwely a brecwast fel llety dros dro. Croesawyd y bwriad o gynyddu maint y tîm cefnogaeth a'r nod o leihau'r raddfa staffio o un swyddog cefnogaeth i oddeutu 60 unigolyn i un swyddog i oddeutu 25 o unigolion bregus. Holwyd am ariannu i'r dyfodol, cadarnhawyd nad oedd sicrwydd pendant am yr arian grant ond fod cyfarwyddiadau'r grant yn amlygu'r angen i gynllunio ar sail hirdymor.

Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn cynnal ymarferiad ar y cyd gyda darparwyr lleol dros y flwyddyn nesaf i adolygu'r gwasanaethau gwerthfawr a ddarperir ganddynt gan ddychwelyd gydag adroddiad pellach ar ganfyddiadau'r gwaith i'r Pwyllgor Craffu Gofal am fewnbwn pellach.



## Papur Ymchwil: Rheoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 5 Rhagfyr 2019 yn diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith ymchwil manwl roedd y Cabinet wedi cytuno i'r Adran Amgylchedd ei wneud mewn perthynas â thai haf. Pwrpas y gwaith oedd ceisio cyfarch sut y byddai modd cyfyngu faint o dai y gellid eu defnyddio at ddibenion gwyliau, gan edrych ar fesurau sydd yn weithredol mewn llefydd eraill a sut byddai modd newid deddfwriaethau cynllunio er mwyn eu gweithredu yng Nghymru.

Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2020, cafodd aelodau'r pwyllgor gyfle i graffu'r gwaith ymchwil ar gartrefi gwyliau cyn i'r Cabinet ei ystyried ar 15 Rhagfyr 2020.

Rhai o’r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:-

- Croesawu’r adroddiad – yn sylfaen dda i ddechrau lobio ac yn gyfle euraidd i newid y drefn a chymryd cyfrifoldeb a rheolaeth dros y sefyllfa.
- Bod yr adroddiad yn cyfarch materion megis AirBnb, ond dim digon yn cael ei wneud i newid y Ddeddf Cynllunio drwy osod trothwyon i reoli. Angen dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf.
- Bod rhaid gweithredu a herio’r Llywodraeth i wneud gwahaniaeth
- Angen mwy o fanylder am gyflogaeth ynghyd a phrisiau tai uchel mewn rhai ardaloedd. Byddai hyn yn amlygu sut mae’r iaith yn colli ei thir – cadarnleoedd y Gymraeg yn colli eu Cymreictod.
- Bod angen cau’r bylchau fel na ellid osgoi trefniadau rheoleiddio. Gellid targedu ‘unedau gwyliau tymor byr’ – perchennog yn debygol o drosi yn ôl i gategori ‘ail gartref’ fel modd o osgoi rheolaeth
- Awgrym i fabwysiadau ‘ymyrraeth’ – creu dwy haen gwyliau a lleol fydd yn gwarchod y stoc tai lleol ac yn gyrru’r prisiau
- Angen ystyried Treth Trafodiadau Tir – cyfle i godi premiwm
- Angen rheolaeth dros ‘ail gartrefi’ – dim cyfleoedd na chartrefi ar gael i bobl ifanc

Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad a diolchwyd i’r swyddogion am gyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth fanwl a defnyddiol a ellid ei ddefnyddio i geisio dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid eu polisïau cynllunio. Penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020 yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o’r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf, gymeradwyo’r gwaith ymchwil i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.



## Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd

Un o wasanaethau’r Cyngor sydd wedi ei effeithio yn sylweddol o ran darparu gwasanaeth yn ystod cyfnod y pandemig yw’r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd. Roedd aelodau’r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn awyddus i graffu eu gwaith yn ystod y cyfnod.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y pwyllgor ar 25 Chwefror 2021 yn manylu ar y gwaith. Eglurwyd bod 3 gwasanaeth cyn y pandemig, sef:

- Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu
- Gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid
- Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch (yn cynnwys afiechydon heintus)

Yn sgil y pandemig mae dyletswyddau Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud ac afiechydon heintus, wedi dod yn un o brif flaenoriaethau’r Cyngor, sefydlwyd Gwasanaeth newydd ym mis Mai 2020 i gynnal y gwaith perthnasol sef Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu - Cofid. Daeth y gwasanaeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020.

Nodwyd un pryder ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen oedd darparu gwasanaeth arferol yn ogystal â’r gofynion presennol ynghylch y pandemig.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolch am yr adroddiad ac i'r holl adran am eu gwaith pwysig iawn dros y cyfnod.
- Canmoliaeth i'r swyddogion olrhain a fu'n gweithio'n ddiddiwedd er mwyn cysylltu gyda phawb, yn arbennig pan welwyd cynnydd o achosion Covid-19 mewn rhai ardaloedd.
- Sut mae'r adran yn ymdrin â thrigolion sydd wedi cychwyn busnesau bwyd o'u tai dros y pandemig?
- Croesawu'r newyddion bod tri aelod newydd wedi eu penodi i'r adran a bod hyn yn symudiad da ar gyfer y dyfodol.
- Diolch am yr holl ddiweddariadau sydd wedi bod drwy e-bost ar y sefyllfa gwarchod y cyhoedd ac ategwyd bod yr adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith ychwanegol sydd ar waith.
- Oedd y gwasanaeth yn ffyddiog y byddant yn ymdopi'n ddigonol a'u llwyth gwaith wrth i ddyletswyddau arferol ddychwelyd.

Fel rhan o'u hymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion y byddai straen ar y gwasanaeth petai archwiliadau yn ailgychwyn ar raddfa arferol, ar ben dyletswyddau Covid-19. Cydnabuwyd bod swyddogion yr adran yn gweithio oriau hir a bod hon yn sefyllfa hirdymor hyd hyn, dim yn un dros dro fel y rhagwelwyd yn gychwynnol. Nodwyd bod cefnogaeth gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn penodi staff ychwanegol i'w groesawu gan ei fod yn lleihau pwysau ar y swyddogion. Rhagwelwyd cyfnod heriol i ddod wrth ymdopi â'r economi yn ail agor yn raddol.



Adnabuwyd y maes fel mater i'r pwyllgor gadw golwg arno. Ar gais y Pennaeth a'r Aelod Cabinet rhoddwyd ystyriaeth i adnoddau staffio'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Ebrill 2021.

'Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr heriau yng nghyswllt sicrhau capasiti a gwydnwch nawr ac i'r dyfodol. Yn ystod y drafodaeth, nododd aelodau'r angen i gryfhau gwydnwch ar gyfer yr hirdymor a bod yr arbedion a wnaed yn y gwasanaethau wedi mynd rhy bell. Cyfeiriwyd at yr angen i gadw staff profiadol a denu staff newydd a hynny yng nghyd-destun cyflogau uwch yng nghynghorau eraill y Gogledd. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, ac argymell i'r Cabinet ystyried edrych ar raddau cyflogau staff ar draws y Cyngor a sut maent yn cymharu â chyflogau cynghorau cyfagos.

## Rheolaeth o Arddangosfeydd Tân Gwyllt

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2020, mabwysiadodd y Cyngor gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Paul Rowlinson yng nghyswllt rheolaeth arddangosfeydd tân gwyllt. Cymal o'r rhybudd a fabwysiadwyd oedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:

- Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.

- Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
- Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.

Yn unol â'r cais, trafodwyd y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Ebrill 2021. Derbyniwyd cyflwyniad gan Bennaeth Cynorthwyol Amgylchedd lle eglurwyd bod gofynion statudol yn ymwneud a gwerthiant a storio tân gwyllt a pha fathau a chaniateir ynghyd a chyfyngiadau sŵn a chyfnodau gwerthiant. Nodwyd rôl y Cyngor sef, cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ar ddefnydd cyfrifol, cydweithio a'r Gwasanaeth Tân, paratoi datganiadau i'r wasg a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu ymarfer da. Eglurwyd bod y gyfraith yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i newid rheolau ynghylch tân gwyllt.

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:-

- Croesawu'r adroddiad ac awgrymu bod angen diwygio'r cod tân gwyllt neu osod cyfyngiadau ar drwyddedau arwerthwyr a chanllawiau pellach iddynt er mwyn osgoi defnydd anghymdeithasol.
- Bod y rhan fwyaf o drigolion yn dilyn y rheolau a'r lleiafrif sy'n anghymdeithasol ac yn eu diffodd o ganol mis Hydref ymlaen ac nid ar ddiwrnod tân gwyllt yn unig.
- Diolch i'r Cynghorydd Paul Rowlinson am gyflwyno'r mater pwysig yma gerbron y Cyngor Llawn.
- A fyddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor? Awgrym i sefydlu is-grŵp i'w drafod gan gynnwys y Cynghorydd a gyflwynodd y rhybudd o gynnig.
- Bod tân gwyllt wedi datblygu erbyn hyn i fod llawer mwy swnllyd ac yn amharu ar bobl ar raddfa uwch.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y swyddogion:

- Bod cynghori prynwyr cyn digwyddiadau yn rhywbeth roedd swyddogion yn ei wneud ers tro. Nodwyd bod modd gwella o ran amlygu'r canllawiau a hefyd drwy barhau i gynnal y berthynas waith dda gyda'r gwerthwyr.
- Cytuno i barhau i godi ymwybyddiaeth ac amlygu'r arfer da a thrafod â'r Cynghorydd sydd wedi cyflwyno'r cynnig.
- Bod modd amlygu a rhannu arfer da gyda gwerthwyr a defnyddwyr fel ffordd ymlaen. Roedd y Cyngor wedi ei gyfyngu gan y gyfraith o ran yr hyn y gellir ei wneud.



Llun: "freepik.com @lifeforstock'

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.

# Galw i Mewn

Fel rhan o'r drefn craffu mae gan aelodau hawl i alw penderfyniadau i mewn i'w craffu. Y broses o ran galw penderfyniad i mewn - bydd angen i Gadeirydd neu Is-Gadeirydd pwyllgor craffu ynghyd â dau aelod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw (o ddau grŵp gwahanol) wneud cais gan nodi eu rhesymau am alw i mewn y penderfyniad.

Yn 2020/21 galwyd un penderfyniad i mewn i'w graffu, sef:

**Penderfyniad y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch**

**15/09/20**

Cabinet yn penderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch

**25/09/20**

Derbyn cais i alw'r penderfyniad i mewn i graffu

**08/10/20**

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn craffu'r penderfyniad

**03/11/20**

Cabinet yn penderfynu peidio addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet

Ar gais y Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu), Dewi Roberts (Aelod Lleol) ac Elwyn Jones (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu), craffwyd y penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 8 Hydref 2020. Rhoddwyd cyfle i'r Aelod Cabinet a'r Adran Addysg i ymateb i'r rhesymau am alw i mewn, yr Aelod Lleol i gyflwyno gwybodaeth yn ogystal â gwahodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Abersoch i gyflwyno tystiolaeth ac ateb cwestiynau.

Gellir gweld cofnod o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod o dan y ddolen yma - Cofnod Eitem Galw i Mewn

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, penderfynwyd bod y pwyllgor craffu yn parhau i bryderu am y sefyllfa, ac felly'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried am y rhesymau canlynol:

- Oherwydd sefyllfa COVID a chanllawiau cyfreithiol a pholisïau'r Adran Addysg, nid yw'n bosib' cynnal cyfarfodydd yn y ffordd arferol, ac mae'n amhosib' cael cyfarfodydd o gwbl gyda rhai unigolion sydd â diddordeb cryf yn y mater. Mae hefyd yn amhosib' cael cyfarfodydd arferol cyhoeddus yn y gymuned i drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad.

- Roedd y Pennaeth i ffwrdd o'i gwaith yn ystod y cyfnod, ac mae'n parhau i fod i ffwrdd. Gan mai'r pennaeth parhaol sy'n gwybod orau am sefyllfa'r ysgol, byddai parhau gyda'r broses tra mae hi'n parhau i fod i ffwrdd yn annheg i'r ysgol a'r gymuned.

- Cred rhai na ddylid cau ysgolion bach heb graffu ar y penderfyniad.

Mynychodd Gadeirydd y Pwyllgor Craffu gyfarfod y Cabinet ar 3 Tachwedd 2020. Cyflwynodd y rhesymeg a'r cefndir tu ôl i benderfyniad y Pwyllgor Craffu. Ymhelaethodd yr Aelod Lleol ar sefyllfa'r ysgol a'r pryderon o ran cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o dan gyfyngiadau Covid-19. Yn dilyn pwyso a mesur yr hyn a amlygwyd gan y Pwyllgor Craffu, arweiniad swyddogion a'r rhesymau am y penderfyniad gwreiddiol nid oedd y Cabinet yn ystyried bod y materion a godwyd yn cyfiawnhau addasu'r penderfyniad gwreiddiol.

## EFFAITH CRAFFU

Er bod y Cabinet heb addasu ei benderfyniad gwreiddiol. Llwyddodd y gwaith craffu yma i amlygu pryderon lleol gyda'r Cabinet yn cydnabod yr angen i gadw golwg ar yr ymgynghoriad a gofyn i'r Adran Addysg am adroddiad cyson ar sut roedd y broses yn symud yn ei blaen.

# Ymchwiliadau Craffu

## Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd

Adroddwyd ar waith yr ymchwiliad craffu yn Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20. Roedd adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion wedi ei raglennu i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal ar 26 Mawrth 2020. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19 nid oedd hyn yn bosib. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i gyfarfod o'r pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020.

Derbyniwyd diweddariad o ran gweithrediad ar yr argymhellion gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd â Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) Gogledd Cymru.

Gellir gweld manylion llawn y diweddariad o dan y ddolen yma – Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd.




Dyma rai o'r sylwadau a nodwyd yn ystod y cyfarfod:-

- Bod symudiad yn y materion penodol i'r Gwasanaeth Iechyd ond roedd cynnydd wedi arafu oherwydd Covid-19.
- Bod penodiad Arweinydd Therapi Galwedigaethol ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi hwyluso cyfathrebu a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd.
- Dogfennau cyfeirio electroneg yn cael eu treialu gan y Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd, a bod bwriad cyflwyno trefn gyfeirio electroneg yn fuan.
- Cyfrifoldeb therapyddion galwedigaethol y Cyngor yw cynnal asesiad amgylchedd yn y cartref a chyfrifoldeb therapydd galwedigaethol y GYCS yw cwblhau asesiadau ar gyfer offer arbenigol. Nid oedd datblygiadau pellach ynghylch cytundeb gyda'r Gwasanaeth Iechyd i Therapyddion Galwedigaethol o Awdurdodau Lleol dderbyn yr hyfforddiant arbenigol. Serch hyn, roedd cynnydd wedi bod yn yr ymweliadau ar y cyd gan wella cydweithio a lleihau oedi mewn sicrhau offer addas yn amserol.
- Nodwyd ei fod yn bwysig peidio ag anghofio'r argymhellion, dal i dderbyn diweddariadau a dal i wella er mwyn symud ymlaen.

Fel dilyniant, craffwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 14 Ionawr 2021, adroddiad ar y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Prif gasgliadau'r drafodaeth oedd:

- Bod ambell her yn wynebu'r Gwasanaeth ond ei fod hefyd yn gyfnod o gyfleoedd i wella'r gwasanaeth. Nodwyd pryder nad yw lefel staffio yn cyd-fynd gyda'r llwyth gwaith.
- Gweledigaeth yr Adran yw sefydlu gwasanaeth symud a thrin byddai'n cefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a sicrhau fod yr unigolyn yn derbyn y gefnogaeth a'r offer cywir i'w galluogi i gwrdd â'r hyn sydd yn bwysig iddynt. Cais wedi ei wneud am arian o'r gyllideb Byw yn Annibynnol Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwasanaeth.
- Bod angen cadw llygaid ar effaith Covid-19 ar y gwasanaeth ac os oes adnoddau digonol i ddelio gyda'r llwyth gwaith.

## Ymchwiliad Craffu Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg

Cyfeiriwyd at waith yr ymchwiliad craffu yn Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20. Roedd adroddiad drafft yr ymchwiliad i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mawrth 2020, ond oherwydd pandemig Covid-19, canslwyd y cyfarfod.

Yn sgil cyfnod o beidio cynnal cyfarfodydd craffu ffurfiol blaenoriaethwyd materion i'w craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol. Ni flaenoriaethwyd adroddiad yr ymchwiliad yma ac felly nid yw'r pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau ac argymhellion yr ymchwiliad.

Crynhoir isod ganfyddiadau ac argymhellion yr ymchwiliad. Y prif gwestiwn i'w gyfarch gan yr ymchwiliad oedd:



"Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?"

Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:
- Beth Lawton (Cadeirydd),
- Steve Collings,
- Cai Larsen,
- Paul Rowlinson.

Gwelwyd fod yr adeiladau newydd yn cynnig cyfleusterau hyblyg, diogel o safon uchel na fydd angen cynnal a chadw sylweddol am amser hir. Mae'r cyfleoedd a'r gofodau sydd wedi eu creu yn hwyluso darparu addysg yng Ngwynedd ac mae'r disgyblion wedi adrodd eu bod yn falch iawn o'r cyfleusterau a'r buddsoddiad yn eu hardaloedd hwy.

Daeth yn amlwg ei bod yn anodd profi effaith yr adeiladau newydd ar ansawdd addysg, a daethpwyd i'r casgliad mai un elfen yn unig sy'n cyfrannu at ansawdd addysg yw'r adeiladau. Roedd aelodau'r ymchwiliad yn falch o weld fod y buddsoddiad wedi dod ag amodau dysgu mwy hyblyg i'n hysgolion yn ogystal â balchder gan y disgyblion, y staff ac o fewn y cymunedau. Adnabuwyd gwersi i'w dysgu o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan arwain at gyflwyno'r argymhellion isod.

- Bod y Gwasanaeth Moderneiddio Addysg yn parhau i werthuso prosiectau gan gywain y gwersi at ei gilydd wrth gyflawni'r prosiectau, gan barhau i ddysgu gwersi ac addasu yn sgil y gwersi hynny. Dylid ystyried pwyntiau penodol a adnabuwyd gan yr ymchwiliad gyda'r gwersi hynny.
- Bod yr Aelod Cabinet yn gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru er mwyn llacio rhywfaint ar ganllawiau ac amodau'r grant Ysgolion G21ain gan ystyried dulliau o daflunio poblogaeth ysgolion unigol yn y tymor hwy.
- Bod yr Aelod Cabinet yn gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru wneud astudiaeth ar draws Cymru gyfan o effaith adeiladau ysgolion newydd ar ansawdd addysg.

Trwy gydol yr astudiaethau achos a'r cyfarfodydd gydag arbenigwyr ym maes addysg, daeth effaith arweinyddiaeth dda ar ansawdd addysg yn amlwg ac felly nododd aelodau'r ymchwiliad bwysigrwydd anelu at arweinyddiaeth gryf.

## Cynnal Ymchwiliadau Craffu yn y dyfodol

Ni adnabuwyd materion i ymchwilio i mewn iddynt yn y flwyddyn Cyngor yma. Mae aelodau wedi bod yn effro i'r gofynion ychwanegol ar swyddogion yn ystod pandemig Covid-19 ac wedi ceisio peidio llwytho gwaith sylweddol ychwanegol arnynt.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi wrth flaenoriaethu rhaglen waith 2021-22 os yw mater yn addas/teilyngu ymchwiliad craffu. Fel yr arfer, bydd angen blaenoriaethu meysydd ar gyfer eu hymdrin â hwy drwy ymchwiliad craffu, gan roi ystyriaeth i'r cyd-destun cyfarfodydd rhithiol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma roedd cyfyngiadau o ganlyniad i Covid-19 yn parhau i lacio. Gobeithir bydd y sefyllfa yn parhau i wella. Mae'r pandemig wedi dangos bod modd cynnal cyfarfodydd yn rhithiol gydag aelodau yn cymryd rhan mewn cyfarfod o bell. Yn y gorffennol, bu defnydd o offer fideo gynadledda gyda dewis i aelodau gymryd rhan drwy fynychu swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Dolgellau neu Bwllheli.

Mae'r dechnoleg sydd ar gael i gynnal cyfarfodydd rhithiol drwy Microsoft Teams a Zoom yn uchafu'r cyfleoedd i raglennu cyfarfodydd sydd yn gyfleus i aelodau gymryd rhan. Mewn adeg lle mae newid hinsawdd yn fater mewn ffocws, mae cynnal cyfarfodydd rhithiol yn lleihau allyriadau carbon gan nad yw aelodau yn teithio gymaint.



Mae'n deg dweud ar rai adegau bod cyfarfodydd wyneb i wyneb o fantais yn enwedig pan fo tystion gerbron yn rhoi tystiolaeth bersonol. Gall edrych ar iaith y corff a chyswllt wyneb i wyneb helpu i wneud tystion deimlo yn fwy cyfforddus wrth gyflwyno tystiolaeth.

Nid yw'n glir eto sut yn union bydd ymchwiliadau craffu yn cael eu cynnal. Mi fydd yr ystyriaethau uchod yn faterion i'w hystyried ynghyd â phwysau gwaith ar Adrannau'r Cyngor. Bydd angen dod i gasgliad fesul ymchwiliad o'r ffordd orau i weithredu a dysgu gwersi wrth fynd ymlaen.

# Grŵp Tasg Parcio

Derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd i sefydlu Grŵp Tasg yn 2019, i gynorthwyo'r Adran gyda'r gwaith o ddadansoddi'r amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb yr heriau ariannol incwm o feysydd parcio yn y dyfodol.

Aelodau'r Grŵp Tasg sydd yn cyflawni'r gwaith, yw'r Cynghorwyr:

- Kevin Morris Jones,
- Angela Russell,
- Annwen Hughes,
- Gethin Glyn Williams.



Llun: "freepik.com"

Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Grŵp Tasg i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Rhagfyr 2020 yn manylu ar yr opsiynau a'r argymhellion a roddwyd ymlaen gan y Grŵp Tasg.

Adroddwyd bod y Grŵp Tasg wedi cynnal adolygiad o strategaeth barcio presennol y Cyngor gan roi sylw i gerbydau trydan, defnydd arian parod, digwyddiadau, defnydd tai a thai haf, cerbydau gwyliau, newid strwythur ffioedd parcio, parcio yn ystod cyfnod y Nadolig, Cynllun Bathodyn Glas, Cynllun Parcio i Breswylwyr a chryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio.

Penderfynodd y pwyllgor dderbyn y diweddariad a chefnogi argymhelliad y Grŵp Tasg y dylid cynyddu ffioedd talu ac arddangos 10%. Gellir gweld yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod o dan y ddolen yma – Adroddiad a Chofnodion

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2021 o ran yr adolygiad parcio. Derbyniwyd argymhellion y Grŵp Tasg heblaw i addasiad o ran cysoni oriau gorfodi Meysydd Parcio Band 1 i fod yn weithredol rhwng yr oriau 10am a 4.30pm. Bwriedir cynnal cyfarfodydd o'r Grŵp Tasg yn 2021/22 gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

> "…. yn hynod dda fel Aelod Cabinet, gweld ein system pwyllgorau craffu ni, trwy y grŵp tasg trawsbleidiol yn cyfrannu at wneud penderfyniad yn hytrach na edrych ar benderfyniad a'i graffu o wedyn. Dwi'n meddwl bod hynny wastad yn newydd da. …mae 'na bethau hynod bositif yn yr adroddiad. Buaswn yn hoffi llongyfarch y grŵp ar eu gwaith."

## EFFAITH CRAFFU

Bu aelodau'r Grŵp Tasg yn cydweithio gyda'r Aelod Cabinet gan ychwanegu gwerth wrth adolygu'r strategaeth barcio. Mae'n esiampl o'r hyn y gellir ei wireddu wrth gydweithio gydag Aelod Cabinet.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy'n gwarchod cenedlaethau'r dyfodol yn y tymor hir. Mae'n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Wrth graffu mae aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf:



**Hirdymor**

Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.



**Atal**

Atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, yn hytrach nag ymateb i broblemau.



**Integreiddio**

Sut all amcanion llesiant y Cyngor effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol a amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill (e.e. bwrdd iechyd neu heddlu lleol).



**Cydweithio**

Gweithio gydag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant.



**Cynnwys**

Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu cynlluniau a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Mae'n angenrheidiol bod aelodau'n mireinio sgiliau craffu gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd yn ofynnol ar gyrff cyhoeddus yn rhinwedd y Ddeddf. Bwriedir atgoffa aelodau yn rheolaidd ar ofynion y Ddeddf er mwyn gallu sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Ddeddf.

# Sesiynau Aelodau Cabinet

Gyda 2020/21 yn flwyddyn dra wahanol, adnabuwyd yr angen i'r Aelodau Cabinet gynnal sesiynau ar gyfer yr aelodau er mwyn rhannu gwybodaeth am waith yr adrannau, effaith Covid-19 ar ddarparu gwasanaethau a prif flaenoriaethau'r Aelod Cabinet/Adran i'r dyfodol. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth fesul Aelod Cabinet yn ystod mis Tachwedd 2020:

Addysg
**Cemlyn Williams**

Economi
**Gareth Thomas**

Cyllid
**Ioan Thomas**

Plant a Chefnogi Teuluoedd
**Dilwyn Morgan**

Oedolion, Iechyd a Llesiant
**Dafydd Meurig**

Amgylchedd
**Gareth Griffith**

Cefnogaeth Gorfforaethol a Cyfreithiol
**Nia Jeffreys**

Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth
**Catrin Wager**

Tai ac Eiddo
**Craig ab Iago**

'Roedd yr aelodau a fynychodd y sesiynau yn eu gwerthfawrogi yn fawr iawn. Yn gyfle euraidd i dderbyn gwybodaeth ac i dderbyn ymatebion i gwestiynau'r aelodau mewn modd anffurfiol.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith staff yn ystod cyfnod y pandemig gan ymateb i heriau ac ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl Gwynedd.

Bu'r sesiynau yn fuddiol gydag aelodau yn derbyn gwybodaeth a oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o waith y wahanol wasanaethau o fewn yr adrannau.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2020/21

**48 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**29 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**3 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Cyfanswm o **32** aelod craffu wedi **mynychu 9 sesiwn** rhannu gwybodaeth Aelod Cabinet.

Eraill yn rhan o'r gwaith craffu:

- **7** aelod cyfetholedig (5 gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig, 2 heb bleidlais)
- **1** aelod lleyg

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu.

**ATODIAD**

# Rhaglen Waith Craffu 2020-2021

| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | |
|---|---|
| **8 Hydref 2020** | • Galw i mewn – penderfyniad Cabinet (15/09/20) i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. |
| **5 Tachwedd 2020** | • Tŵf Economaidd Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) |
| **4 Chwefror 2021** | • Adroddiad Blynyddol Addysg 2018-19, 2019-20, Ymateb yr Adran Addysg i'r Pandemig COVID-19, Blaenoriaethau'r Adran Addysg<br>• Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID-19<br>• Ymgysylltu Anffurfiol Addysg ôl-16<br>• Datblygu Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy a Threth Twristiaeth |
| **15 Ebrill 2021** | • Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd<br>• Adolygu'r Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd |

| Pwyllgor Craffu Gofal | |
|---|---|
| **26 Tachwedd 2020** | • Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu: Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd (Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn)<br>• Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal |
| **14 Ionawr 2021** | • Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol |
| **18 Mawrth 2021** | • Darpariaeth gofal a thai ychwanegol ar safle Penrhos, Pwllheli<br>• Defnydd o'r Grant Cymorth Tai i leihau digartrefedd yng Ngwynedd |

| Pwyllgor Craffu Cymunedau | |
|---|---|
| **22 Hydref 2020** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) |

| | |
|---|---|
| | • Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2019/20 |
| **10 Rhagfyr 2020** | • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Diweddariad - Adolygiad Parcio<br>• Papur Ymchwil: Rheoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau |
| **25 Chwefror 2021** | • Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy<br>• Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid<br>• Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd - gwaith y gwasanaethau yn ystod y pandemig |
| **22 Ebrill 2021** | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant<br>• Rheolaeth o Arddangosfeydd Tân Gwyllt<br>• Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor - sicrhau capasiti a gwydnwch nawr ac i'r dyfodol |

| **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** | |
|---|---|
| **15 Hydref 2020** | • Trosolwg Arbedion: adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion<br>• Strategaeth Cyllideb 2021/22 (craffu'r gwaith yn gynnar yng nghylch cyllidebu'r Cyngor) |
| **11 Chwefror 2021** | • Y Sefyllfa Arbedion<br>• Cyllideb 2021/22 (gyda ffocws ar risg, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb a threth i'r Cyngor llawn gymeradwyo)<br>• Strategaeth Cyfalaf 2021/22 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg) - nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi cyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth |